

## Adar Taid

(atgofion am yr adar gan Tom Jones, Golan, fel cyfraniad I brosiect Adar Taid (BioGyfri2012)

Rwyf am gychwyn yn ôl yn y 50degau pan yn blentyn ym Mhen Lleyrn yn cartref nain a taid. Cofiaf yn iawn i'r rhostir tu ôl i dyddyn fy nhaid a nain fod yn llawn nythod **Cornchwiglod** a **Gylfinir**, rhai dwsinau lawer. Roedd yn anodd iawn cerdded heb roi troed ar nyth ac fe ddigwydd hynny un waith ac unwaith yn unig. Am hewyrth roddodd ei droed yn hwnnw diolch i'r drefn.

Fel yr ai ffermio yn fwy dwys yn y blynyddoedd a ganlynodd fe ddiflannodd yr adar yma mewn rhyw 5 mlynedd os cofiaf yn iawn. Man lle roedd y rhostir yw SH257 354 - tir yn eiddo i Dregarnedd oedd hwn. Ni chofiaf lawer am yr adar mân yn y cyffiniau, ond am **Linos benddu'r eithin** - roedd nifer dda o'r rheini yn yr ardal. Eto ffermio mwy dwys sydd wedi gwaredu llawer o'r eithin man, felly dim lle i nythu i'r Llinos.

Wedi symud oddi yno i Stad y Wern rhwng Criccieth a Porthmadog daeth yn newid byd eto. Yma roedd tir agored amaethyddol a choedwigaeth. Roedd hyn yn ganol y 50degau. Nid oes dim cof gen i weld na Chornchwiglen na Gylfinir ar y stad ond digonedd o adar eraill un o ohonynt oedd y **Bwncath** neu'r Boda.. Byddai hon yn hofran uwchben Coed y Twr SH539 402 fel y gelwid y winllan yma, coed cymysg llydanddail a chonwydd delfrydol i'r Bwncath nythu. Daeth yn fwy o boblogaeth yn flynyddol wedi hynny Yn y 60au i'r 80au cyfrais rhwng Tremadog a Dolbenmaen cymaint ac 11 pâr. Yn y 90au dechreuodd yr rhain ddiffannu ac erbyn heddiw does ond rhyw 6 neu 7 pâr yn y cyffiniau yma hyd y gwelaf i .

Yn y coed o gwmpas y stad byddai **Sgrech y Coed**. Prin y gwelem hon pan yn blentyn ond daeth yn fwy niferus yn y 90degau, ac fe roedd y niferoedd yn dal i gynyddu yn flynyddol nes i mi adael tua diwedd y 90degau. Yn yr un cyfnod yma roedd digonedd o **Fronfreithod** o gwmpas ond eto prin yw'r rhain o gwmpas y stad. Roedd **Brych y coed** yn eithaf prin ac wedi cynyddu yn yr un cyfnod.

Wrth gwrs nid oedd unrhyw stad heb ei **ffasantod** ac nid oedd y Wern ddim gwahanol. Roedd miloedd yno. Cofiaf i gymaint ac 20,000 o rai bach ym meudai y fferm yn cael eu bwydo ar un adeg ac fe ddaeth yr rhain yn eu blaenau i fod yn adar yn barod i'w saethu erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd **Petris**, yn ardal Treflys ac i fyny at lethrau Moel y Gest, rhyw bar yn fan hyn ar fan acw oedd hi, a neb yn eu saethu chwaith. Tydw i ddim yn meddwl fod rhai o gwmpas nawr.

**Adar y to** wedyn, byddai llawer iawn o'r rhain yn y cyffiniau rhan amlaf i'w gweld o gwmpas adeiladau y ffermydd a lle bynnag yr af heddiw yn yr un ardal byddaf yn eu gweld, ond o ran y cyfrif nid wyf yn siwr os ydynt wedi cynyddu ynteu gostwng yn eu niferoedd.

Ambell un o **Benfelen** y byddwn yn eu gweld a hynny i lawr yn gyffiniau y Greigddu ac i fyny i ochrau Moel y Gest. Erbyn heddiw nid oes yr un ar ôl hyd y gwn i. Yn y cyfnod pan ddechreuais weithio yn Penystumllyn, Criccieth. SH514388 cefais y fraint o weld Petris yn dod i fyny o Ystumlllyn yn flynyddol i fagu cywion. Byddai 3 pâr yn dod i fyny a byddai pob un yn magu o 6 i wyth cyw yn flynyddol. Wedi i'r cywion ddod yn ddigon mawr i hedfan byddent yn mynd i lawr i Ystumlllyn yn ôl tan y gwanwyn canlynol. Ond ni fyddai mwy yn dod yn ôl er cymaint y cywion a fyddai

yn cael eu magu dim ond y tri par o hyd. Diflannodd yr rhain erbyn diwedd y 90degau. Yma eto byddai digonedd o Llinos benddu'r eithin yn ei thymor gan y byddai digonedd o eithin ar y llethrau a'r ceunentydd iddynt. Hefyd **Clochdar y cerrig** fyddai yno yn flynyddol - rhain eto wedi diflannu o'r fferm.

Gwelais i ddim **Moch daear** tra yn Pen Llŷn, Byddai moch daear ym mhob gwinllan yn Stad y Wern bron, ynghyd a **llwynogod**. Byddai un set yn Penystumllyn yn y Ceunant mawr a byddai hwn yn symud yn flynyddol yn yr haf i'r Gloddfa fawr. Byddai llwynog yn dod i'w set yn ei le tros dro. Mae hwn yno o hyd tybiwn.

Yn byw y ardal Golan erbyn hyn ac yma ers tros 40 blynedd. Digonedd o adar y to yma cynifer a 60 par gyda'i gilydd yn y gaeaf yn bwydo. Erbyn heddiw 2012 maent wedi gostwng i ryw 40 par. **Titwod** yma o hyd, dim cynydd na gostyngiad yn y niferoedd. Dryw bach: byddai 2 i dri par yma ond dim erbyn heddiw (2012).

**Linos werdd** yn lluosog iawn yma. Mae un par wedi bod yn yr ardd y gaeaf yma.

**Ji-binc**: rhain yn dal eu tir yn eithaf da hyd yn hyn, dim fawr iawn o newid yn y niferoedd. Dwywaith erioed y gwelais y **Ben felen** yma yn yr ardd yng ngaeaf 2010 a gaeaf 2011. Mae'r **gwalch glas** yn galw weithia ond llai yn yr ardal ers rhai blynyddoedd rwan. **Gwalch bach** eto yn galw pob hyn a hyn. Dim newid yma.

Bwncath: par yn nythu nepell o'r tŷ. **Adar duon** yn dal eu tir yn dda iawn. **Jac y do**: buodd y rhain yn niferus iawn o gwmpas y lle yma ond ers y flwyddyn 2009 maent wedi diflannu, dim un yn nythu yn nho'r Capel rwan ers hynny, a dim ond galw mae un neu ddau weithiau. **Durtur dorchog** wedi cyrraedd ers 2008 ac wedi cynyddu i 12 par ar adegau yma. Bu cynnydd aruthrol yn y **brain tyddyn** a'r **ydfran** ac yn y pedair blynedd diwethaf yma mae nifer y **Gigfrain** wedi cynyddu yn arw o gwmpas y lle - byth yn eu clywed yma bron cynt.

Mae un aderyn arall nad wyf wedi son am dano sef y **Drudwy**. Dyma aderyn sydd wedi gweld newidiadau aruthrol. Pan yn blentyn yn Lleyn does gen i ddim cof gweld rhai o gwbl. Efallai fy mod yn anghywir ac na dim wedi sylwi roeddwn. Hefyd ar Stad y Wern dim cof o weld rhai yno chwaith. Pan yn Penystumllyn mae'r cof cyntaf i mi eu gweld yn 60degau. Ac fe fyddent yn clwydo yn Llyn Ystumllyn yr adeg honno hefyd.

Mawrth 2012